**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Gwener, 21 Medi 2018 am 1.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | P R Hood-Williams |
| J W Jones | S Pritchard | W G Thomas |
| M Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |
| Neville Rookes | Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Christian Servini | Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Kerry Rogers | Cyfoeth Naturiol Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Y V Jardine
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Ymddiheuriadau**

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

3 **Nodiadau**

- Ychwanegu nodiadau ynglŷn â hawliau pori ar dir y cyngor a deddfwriaeth gysylltiedig

4 **Sesiwn ar Ddeddfwriaeth**

- Trafododd y Cynghorydd Jones nodau ac amcanion yr ymchwiliad
- Esboniodd mai nod y sesiwn hon oedd egluro'r goblygiadau cyfreithiol ac ariannol posib o beidio â bodloni gofynion mewn perthynas â bioamrywiaeth a'r amgylchedd o dan y ddeddf.
- Gofynnwyd i bob sefydliad drafod a chyflwyno yn unol â'r cwestiynau canlynol;

1. Beth yw'r canlyniadau cyfreithiol ac ariannol yn y tymor hir, canolig a byr, o beidio â bodloni gofynion o dan y ddeddf?
2. Sut byddwch chi'n mesur llwyddiant (neu ddiffyg llwyddiant) cynghorau o dan y ddeddf? Sut olwg fydd ar y mesurau perfformiad?
3. Sut mae'r gofynion hyn yn cysylltu â Lloegr ac yn ehangach er mwyn cyfrannu at welliant cyffredinol yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth?
4. A fydd llwyddiant neu fethiant i fodloni gofynion y ddeddf yn golygu mynediad gwell neu fynediad cyfyngedig at grantiau? A fydd ceisiadau grant yn ddibynnol ar lwyddiant?
5. Beth ydych chi'n ei weld fel y prif rwystrau i gynghorau yn y dyfodol a sut gall cynghorau oresgyn rhwystrau gan ystyried cyni?
6. A oes unrhyw beth y credwch y gall Cynghorwyr unigol ei wneud yn eu wardiau i gyfrannu at lwyddiant a chynnal a chadw a gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth?

- Gwahoddwyd pob sefydliad i ddarparu cyflwyniad byr ac ateb cwestiynau wedi hynny

<u>Neville Rookes - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</u>

- Cyflwynwyd PowerPoint
- Nid oes modd edrych ar brosiectau ar wahân
- Ar hyn o bryd rydym yn dal i fod yn yr UE ac mae cytundebau rhyngwladol hefyd
- Mae craffu'n bwysig
- Rhaid defnyddio'r pum ffordd o weithio i lunio'r strategaeth a'r polisi - dylid eu cynnwys ar y dechrau
- Yn y tymor byr a chanolig, mae perygl o dorri rheolau cyfreithiol a methiant i fodloni gofynion yr UE, yn y tymor hir, bydd yn groes i ba gyfraith bynnag y bydd y DU wedi'i sefydlu ar ôl Brexit
- Bydd mesuriadau canlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Ystyrir strategaeth a pherfformiad
- Bydd yn cymryd mwy o amser ond bydd yn fwy ystyrlon
- Dylai'r ddyletswydd bioamrywiaeth gael ei chynnwys ym mhob cynllun a bod yn rhan o weithgarwch dyddiol y cyngor
- Mae cyfarfodydd sy'n cynnwys gweinidogion y DU a gweinidogion datganoledig er mwyn creu darlun cenedlaethol
- Hefyd mae effeithiau mewn cysylltiad â Brexit, newid yn yr hinsawdd a Chynllunio Morol Cenedlaethol
- Bydd peidio â chyflawni'r gofynion o dan y deddfau'n effeithio ar fynediad at y Grant Refeniw Sengl a'r Grant Amgylcheddol sydd â phwyslais ar weithio cydlynol, traws-sector
- Bydd gan y grantiau hyn hefyd ffocws ar ganlyniadau a'r defnydd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Mae angen i gynghorau gynyddu ymwybyddiaeth a chynnwys yr amgylchedd ym mhob polisi
- Dylai gwariant adrannol arall ymgorffori bioamrywiaeth yn ei gynlluniau
- Gall cynghorwyr, drwy ffordd leol o weithio, gynyddu ymwybyddiaeth, ymweld a'u cynnwys ysgolion, annog Abertawe heb blastig a chefnogi glanhau traethau
- Mae CLILC wedi bod yn darparu cyflwyniadau yn rhanbarthol er mwyn ceisio ymgorffori'r ddyletswydd. Er enghraifft, gall gwasanaethau megis cynllunio a

gwasanaethau cymdeithasol gymryd rhan. Ni ddylai fod gwasanaethau ar wahân nad ydynt yn cymryd rhan

- Mae angen ymagweddau pragmatig ar gyfer cynghorwyr
  C: Ydych chi'n credu y bydd gwrthdaro rhwng polisïau e.e. cynllunio a datblygu?
- Dylai fod 'amgylchedd ym mhob polisi a pholisi ym mhob amgylchedd'
- Mae angen i brosiectau gynnwys yr amgylchedd yn y cam cynllunio ac mae angen gosod y bwriad hwn ar ddechrau'r prosiectau
- Mae rhai cynlluniau ar gyfer draenio cynaliadwy eisoes yn cael eu datblygu o'r newydd
- Mae prosiectau'n dechrau cynnwys yr amgylchedd, iechyd, peirianneg ac ati - mae'r prosiect cyfredol ar afon Taf yn ymgorffori'r holl agweddau hyn
- Mae angen i gymunedau gymryd rhan
- Dywedodd Gweinidog Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os ydym yn gadael yr UE, bydd Cymru'n cynnal y safonau
  Christian Servini – Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Dylai'r sector cyhoeddus geisio sicrhau gwell dyfodol yng Nghymru ac mae hyn yn berthnasol i bopeth y mae'r sector cyhoeddus yn ei wneud
- Mae nod Cymru Gydnerth wedi ei gamddeall yn llwyr - mae'n ymwneud â chydnerthedd ecolegol a dehonglir hyn yn aml fel cydnerthedd cymdeithasol neu bersonol
- Mae diffyg pwyslais ar yr amgylchedd
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn datblygu amcanion ac yn edrych ar hyn
- Mae memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Bydd nod i ddatblygu teclyn hunanwerthuso
- Mae 'Y gallu i greu' yn gweithio tuag at sicrhau Cymru yr ydym ei heisiau
- Mae fframweithiau cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, un yn ymwneud â sut i gynllunio prosiectau ac un yn ymwneud â dylunio gwasanaethau - mae'r rhain ar hyn o bryd yn cael adborth
- Gall cynghorwyr sy'n llywodraethwyr ysgol gael effaith gadarnhaol yn y rôl honno

C: Beth am gymdeithasau tai?

- Mae fframwaith trydydd sector hefyd yn cael ei ddatblygu
- Mae adroddiad Seilwaith Gwyrdd gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn bwysig

C: Nid yw arolygwyr cynllunio yn cynrychioli'r nod cydnerthedd. Maent yn ei gamddehongli ac nid ydynt yn cyflawni amcanion y nod.

- Mae hyn yn digwydd yn aml
- O ran archwilio perfformiad o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd, mae'n debygol y bydd perfformiad yn hunanasesiad - does dim cynlluniau ar gyfer archwilio adroddiadau'n ffurfiol

C: Mae pethau syml a buddugoliaethau cyflym yn bwysig ond rhaid i ni beidio â meddwl ein bod wedi datrys problemau fel hyn, mae'r atebion yn ddyfnach ac mae angen ymagwedd lefel leol ar bob ward. Dechrau'r daith yn unig yw'r buddugoliaethau cyflym

- Os na fyddwn yn bodloni'r gofynion o dan y deddfau, gallai sefydliadau fod yn destun adolygiad barnwrol drwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol neu Swyddfa Archwilio Cymru, yr Ombwdsmon neu ymyriadau posibl gan Lywodraeth Cymru a chael ein galw i'r cynulliad

C: Mae adran 22 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dweud y gall y Comisiynydd roi cyngor ac arweiniad, cyhoeddi'r rhain ac esbonio diffyg cydymffurfio

- Mae'r rôl yn gefnogol ond nid yw'n plismona

<u>Kerry Rogers - Cyfoeth Naturiol Cymru</u>

- Mae amrywiaeth o fframweithiau mewn perthynas â'r amgylchedd - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd
- Mae'r pum ffordd o weithio a'r saith o nod yn sail i bopeth y mae'r sector cyhoeddus yn ei wneud
- O ran y gofyniad i adrodd o dan y ddyletswydd, mae angen cynllun ar gyfer sut y bydd cyrff cyhoeddus yn adrodd am y ddyletswydd a sut mae holl ddyletswyddau'r cyngor yn ymateb i ofyniad adran 6
- Edrychwch ar 'Natur Hanfodol' gan CNC a 'Neilltuo amser ar gyfer natur' gan Ddŵr Cymru
- Rhaid dod o hyd i ffordd o gynnwys bioamrywiaeth ym mhopeth y mae'r cyngor yn ei wneud - ar draws y sefydliad
- Dylid ystyried yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, yr Adroddiad Isadeiledd Gwyrdd, asesiadau strategol y CDLl i gyd
- Dylai'r adroddiad terfynol parthed adran 6 dynnu'r holl wybodaeth hon at ei gilydd
- Mae angen i Abertawe edrych yn eang ar fioamrywiaeth ac nid fel dyletswydd yn unig
- Mae angen ymagwedd o'r pen i'r gwaelod
- Rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddelio â rhwystrau
- Bydd y gwaith hwn yn hanfodol i'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu o hyn ymlaen
- Bu Abertawe ar flaen y gad o ran diwydiant ers blynyddoedd lawer ond bu hynny ar draul yr amgylchedd
- Gelwir y deddfau newydd hyn yn 'ddeddfwriaeth gobaith'

C: Dylai dyletswydd adran 6 ymwneud â holl swyddogaethau'r cyngor. Mae'n hawdd gweld cysylltiadau â rhai gwasanaethau ond mae eraill megis gwasanaethau cymdeithasol lle mae'n anos gweld y cysylltiad. A oes gan awdurdodau lleol eraill syniadau ac arferion da i'w rhannu?

- Mae angen dod ag enghreifftiau gorau at ei gilydd. Mae angen i uwch-reolwyr ymrwymo i hyn e.e. mae mannau gwyrdd diogel i chwarae ynddyn nhw/rhandiroedd a phrosiectau garddio wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl â phroblemau iechyd meddwl

C: Mae llawer o bobl yn aelodau o gynghorau cymuned, beth yw rôl y rhain?

- Bydd cynghorau cymuned yn hanfodol. Fel llawer o grwpiau cymunedol eraill, byddant yn cyflwyno ac ar lawr gwlad. Gall cynghorau roi'r prosiectau ar waith ond pobl fydd yn eu defnyddio
- Hefyd mae prosiectau cymunedol fel gwerthu ffrwythau a llysiau lleol mewn siopau lleol, gwerthu mêl lleol, darparu mannau cymunedol sy'n dal gwybodaeth am fioamrywiaeth i gynnwys trigolion

- Mae ffermydd a gerddi cymunedol hefyd yn chwarae rôl enfawr - mae rhagnodi cymdeithasol yn bwysig
- Nid yw'r atebion ar gyfer iechyd da bob amser yn y sector iechyd
- Dengys ystadegau fod plant yng Nghymru wedi colli diddordeb yn y byd natur

C: Mae'r gair 'ceisio' yn ymddangos yn wan yn y ddeddfwriaeth

- Mae'r 'ceisio' yn air cadarnhaol ac yn annog gweithredu - nid yw'n oddefol
- Mae'n bosib y bydd y cynllunio'n edrych yn swyddogaethol ond mae angen i ddatblygwyr roi'r deddfau a'r rheoliadau ar waith
  1. Atebion gwyrdd
  2. Edrych ar ynni adnewyddadwy
  3. Atebion yn seiliedig ar leoedd
  4. Edrych ar opsiynau gwyrdd ac amgylcheddol gadarn amgen
- Mae gan Abertawe enghraifft o brosiect llwyddiannus - arbedwyd arian gan y ffensys tywod, creu twyni a phlannu moresg, roedd hefyd wedi datrys problem ac roedd yn ateb gwyrdd
- Mae angen i'r cyngor symud ymlaen a chymryd rhai risgiau

5 **Cynllun Gwaith**

- Trafodwyd gweddill y cynllun gwaith
- Bydd y cyfarfod nesaf yn adolygu'r dystiolaeth hyd yn hyn a fydd yn llunio'r argymhellion

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00pm

**Cadeirydd**